Coleg Gwent

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

## VTCT Diploma NVQ mewn Therapi Harddwch (Oedolion) Lefel 2



**Yn gryno**Mae'r cwrs hwn yn ddelfrydol ar gyfer oedolion ac mae hefyd wedi'i gynllunio i weithio o gwmpas y rhai sydd â phlant yn yr ysgol. Mae'r cwrs yn cyflwyno'r disgyblaethau a sgiliau sylfaenol yn y sector harddwch.

**Mae'r cwrs hwn ar gyfer...**

... Oes gennych ddiddordeb brwd mewn Therapi Harddwch

... Os ydych chi eisiau dysgu sgiliau a thechnegau harddwch newydd i gyfoethogi eich gallu presennol

... Oes ydych yn ystyried gyrfa fel Therapydd Harddwch

**Cynnwys y cwrs**

Mae Therapi Harddwch yn ddiwydiant ar dwf sy'n cynnig cyflogaeth gadarn ac amrywiol. Mae mwy a mwy o bobl yn ymweld â therapyddion harddwch wrth i driniaethau harddwch esblygu a dod yn fwy poblogaidd. Mae nifer o ddynion bellach yn ymweld â salonau harddwch ar gyfer

amrywiaeth o wahanol driniaethau. Mae hyn yn cael ei weld fel rhan allweddol o drin dynion ac yn cael ei gefnogi gan y niferoedd cynyddol o gynhyrchion harddwch sydd ar gael ar gyfer dynion ar silffoedd yr archfarchnad ac mewn mannau siopa harddwch.

Mae'r cwrs hwn yn ddelfrydol ar gyfer unrhyw un sydd â diddordeb mewn therapi harddwch ac mae'n addas ar gyfer pob oed. Argymhellir yn gryf eich bod yn cwblhau'r rhaglen dwy flynedd o hyd (Lefel 2 a Lefel 3 Therapi Harddwch) i'ch arfogi gyda'r cymwysterau sydd eu hangen i gael eich cyflogi fel Therapydd Harddwch cymwys.

Byddwch yn dysgu am ymgynghoriadau cleient ac unedau fel:

Trin a Gofal Dwylo
Trin a Gofal Traed
Gofal croen a gwaith wyneb
Hyrwyddo Manwerthu a Chynnyrch
Derbynfa a Gwasanaeth Cwsmeriaid
Celf ewinedd
Dylunio a defnyddio colur
Triniaethau llygaid gan gynnwys tintio amrannau ac aeliau a siapio amrannau
Cwyro - wyneb a'r corff
Efallai bydd unedau ychwanegol yn cynnwys amrannau parhaol a gwelliannau ewinedd

Darperir y cwrs drwy gyfuniad o:

Dosbarthiadau theori
Gweithdai ymarferol
Amgylcheddau salon go iawn yn y coleg yn gweithio ar gleientiaid
Sesiynau masnachol
Arddangosiadau
Gwaith grwp
Teithiau ac ymweliadau â chwmnïau cosmetig ac arddangosfeydd diwydiannol

Yn ogystal â'r cwrs, byddwch yn cael eich annog i gymryd rhan mewn:

Cystadlaethau mewnol yn y coleg
Ysbrydoli Rhagoriaeth Sgiliau yng Nghymru ac UK/World Skills
Gweithgareddau cymunedol
Dyddiau ymwybyddiaeth cynnyrch a thriniaeth yn y diwydiant

Byddwch yn cael eich asesu drwy asesiadau ymarferol, aseiniadau, prosiectau a phrofion amlddewis ar-lein yn ymdrin â'r wybodaeth greiddiol. Pan fyddwch yn ei gwblhau, byddwch yn

ennill:

NVQ Lefel 2 mewn Therapi Harddwch
Cymwysterau ategol priodol i ehangu eich set sgiliau
Sgiliau Cyfoethogi Creadigol (gweithgareddau ac arddangosiadau cymunedol)

**Gofynion Mynediad**

I gofrestru byddwch angen lleiafswm o 3 TGAU gradd D neu uwch (gan gynnwys naill ai Mathemateg/Rhifedd neu Gymraeg Iaith Gyntaf/Saesneg) neu gymhwyster Diploma Lefel 1 priodol yn y maes galwedigaethol perthnasol yn cynnwys naill ai TGAU Mathemateg/Rhifedd neu radd Cymraeg Iaith Gyntaf/Saesneg.

Bydd ymgeiswyr nad oes ganddynt y cymwysterau TGAU gofynnol yn cael eu hystyried yn seiliedig ar brofiad blaenorol neu gymwysterau eraill.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Cod gwisg:

Iwnifform
Mae'n rhaid clymu gwallt yn ôl yn daclus oddi wrth yr wyneb
Dim gemwaith na thlysau, cewch wisgo modrwy briodas yn unig yn y salon

Byddwch angen prynu gwisg a chit harddwch sy'n costio oddeutu £86 a gall costau ychwanegol godi yn ystod y flwyddyn ar gyfer ymweliadau addysgol.

I gydfynd â disgwyliadau diwydiant, bydd gofyn i chi wisgo gwisg salon Coleg Gwent sydd i'w archebu oddi wrth ein cyflenwr cymeradwy. Mae manylion ar sut i archebu eich gwisg ysgol, ynghyd ag opsiynau talu cyflenwyr, ar gael gan eich Pennaeth Ysgol, Darlithydd neu Dechnegydd. Y pris ar gyfer 2024/2025 yw tua £45, yn amodol ar gynnydd mewn prisiau chwyddiant.

Mae'r holl gostau'n cael eu hadolygu a gallent newid.

Mae'r holl gostau'n cael eu hadolygu a gallant newid.